# Methiant Rheolaeth Ariannol a Thwyll – Cyngor Tref Maesteg

Blwyddyn archwilio: 2016-17 i 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3117A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, heddluoedd, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

# Cynnwys

Yn gweithredu yn unol â threfniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi’r adroddiad hwn o dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw’r cyhoedd at ddiffygion sylweddol o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu yng Nghyngor Tref Maesteg a gyfrannodd at gyflawni twyll mawr yn erbyn y Cyngor gan ei gyn Glerc.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Cyngor Tref Maesteg 4

Fy ngwaith archwilio 6

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion 7

Y camau nesaf 8

Adroddiad manwl

Rhwng mis Mawrth 2016 a mis Rhagfyr 2019, fe wnaeth y cyn Glerc dwyllo’r Cyngor allan o £238,000 10

Gwnaeth aelodau’r Cyngor ymddwyn yn amhriodol pan bostiwyd gwybodaeth gyfrinachol am y twyll honedig ar y pryd ar gyfryngau cymdeithasol 11

Methodd aelodau'r Cyngor a wasanaethodd yn ystod cyfnod y cyn Glerc â sicrhau bod gweithdrefnau ariannol priodol y Cyngor yn cael eu dilyn 13

Nid yw’r Cyngor wedi cydymffurfio â’r amserlen statudol ar gyfer cyflwyno ei gyfrifon i’w harchwilio 16

Ceir anghysondebau a hepgoriadau sylweddol yn systemau a chofnodion cyfrifyddu’r Cyngor 17

Mae trefniadau llywodraethu’r Cyngor yn anghyson â’r datgeliadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei ddatganiadau blynyddol 22

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno methiannau o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu yng Nghyngor Tref Maesteg (y Cyngor) yn ystod blynyddoedd ariannol 2015-16 i 2019-20 a gyfrannodd at dwyllo'r Cyngor allan o £238,000.

2 Yn gweithredu dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), mae'n rhaid i mi ystyried a ddylwn, er budd y cyhoedd, lunio adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'm sylw yn ystod fy archwiliad, er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor neu i dynnu sylw'r cyhoedd ato.

3 Nododd fy archwiliad fod methiannau difrifol o ran llywodraethu a rheolaeth ariannol gan y Cyngor ei hun wedi cyfrannu at allu'r cyn Glerc i dwyllo'r Cyngor allan o £238,000. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau yn ymwneud â'r Cyngor ac felly wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn er budd y cyhoedd i esbonio'r methiannau hyn.

4 Hefyd, er bod fy nghanfyddiadau archwilio yn benodol i'r Cyngor hwn, ceir gwersi pwysig i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor, ond gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

## Cyngor Tref Maesteg

5 Mae Cyngor Tref Maesteg yn gwasanaethu tref fawr Maesteg sydd wedi'i lleoli ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn nodweddiadol, mae'n gwario tua £300,000 y flwyddyn, sy'n ei roi ychydig y tu allan i'r 20 cyngor tref a chymuned mwyaf yng Nghymru. Ariennir gwariant o'i braesept yn bennaf. Codir y praesept ar drethdalwyr cyngor yn y gymuned a wasanaethir gan y cyngor. Mae **Arddangosyn 1** isod yn crynhoi cyllid y Cyngor ar gyfer y cyfnod sy'n destun archwiliad.

**Arddangosyn 1: incwm a gwariant a sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth**

Mae incwm a gwariant blynyddol y Cyngor rhwng £300,000 a £370,000.

| | 2015-16<br>£ | 2016-17[1]<br>£ | 2017-18<br>£ | 2018-19<br>£ | 2019-20<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Praesept | 288,435 | 295,500 | 297,718 | 362,319 | 302,001 |
| Incwm arall | 16,843 | 15,497 | 11,143 | 10,809 | 27,684 |
| Costau staff | 39,860 | 35,281 | 46,624 | 46,770 | 41,904 |
| Taliadau eraill | 259,799 | 274,804 | 242,135 | 320,824 | 211,315 |

Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru – datganiadau blynyddol Cyngor Tref Maesteg 2016-17 i 2019-20

6 Mae cynghorau cymuned a thref, fel Maesteg, yn dibynnu fel rheol ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc fel Swyddog Ariannol Cyfrifol hefyd. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn benodol, mae hyn yn golygu derbyn a chofnodi incwm, paratoi taliadau siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu, paratoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol ac ymdrin â'r archwiliadau mewnol ac allanol.

7 Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd y Cyngor yn cyflogi Mrs Margaret Buckley fel ei Glerc a'i Swyddog Ariannol Cyfrifol rhan-amser (25 awr yr wythnos). Penodwyd Mrs Buckley i'r swydd Dirprwy Glerc gan y Cyngor ym mis Ebrill 1997, swydd yr oedd ynddi tan ei phenodiad fel Clerc ym mis Ebrill 2016. Gwasanaethodd fel Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor tan fis Ionawr 2020.

8 Rhagflaenydd Mrs Buckley fel Clerc oedd Mrs Joan Fielding (Mrs Fielding). Olynwyd Mrs Buckley fel Clerc gan Mrs Sian Teisar (Mrs Teisar). Cyflawnodd Mrs Teisar y swydd Clerc Dros Dro o fis Ionawr 2020 tan ei phenodiad fel Clerc ym mis Hydref 2020.

9 Er gwaethaf swyddogaeth y Clerc, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)), y Cyngor (hynny yw, aelodau'r Cyngor) sy'n gyfrifol am stiwardiaeth cyllid y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod gan y Cyngor reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon.

10 Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys pethau fel sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol eu harchwilio.

[1] O ystyried ei incwm a'i wariant blynyddol, dylai'r Cyngor baratoi ei gyfrifon ar sail croniadau. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cofnodion priodol, mae symiau 2016-17 a 2017-18 yma yn cael eu datgan ar sail arian parod (h.y. derbynebau a thaliadau).

## Fy ngwaith archwilio

11 Bwriedir fy ngwaith archwilio fod yn gymesur i faint cynghorau a'r symiau o arian cyhoeddus y maent yn eu rheoli. Dylai'r broses archwilio fod yn effeithlon a chaniatáu i gynghorau gyhoeddi cyfrifon a archwiliwyd yn unol â'r amserlen statudol.

12 Yn ystod y cyfnod sy'n destun archwiliad, cwblhawyd fy ngwaith archwilio gan BDO, cwmni archwilio a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau archwilio i'r Archwilydd Cyffredinol. Fe wnaeth BDO ddioddef oediadau sylweddol ar ran Mrs Buckley o ran cyflwyno cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2016-17 a 2017-18 i'w harchwilio. Hefyd, methodd Mrs Buckley â darparu tystiolaeth ategol ddigonol i BDO gwblhau eu gwaith archwilio a chamarweiniodd BDO a fy nhîm archwilio ynghylch y dyddiad y cyflwynodd cyfrifon 2017-18 i'w harchwilio. Ym mis Rhagfyr 2018, cyfeiriodd BDO y Cyngor ataf i er mwyn cwblhau'r archwiliad. Ar yr un pryd, derbyniais ohebiaeth yn mynegi pryder ynghylch safon y rheolaeth ariannol yn y Cyngor. Ehangais gwmpas fy archwiliad felly i edrych yn fanylach ar gofnodion sylfaenol y Cyngor.

13 Nododd fy ngwaith archwilio a wnaed rhwng 2018 a 2020 a gwaith a wnaed gan archwilydd mewnol y Cyngor, Mr Wyn Davies (Mr Davies) yn 2019, ddiffygion ac afreoleidd-dra yng nghofnodion cyfrifyddu'r Cyngor. Roedd yr afreoleidd-dra hwn yn cynnwys pryderon ynghylch dilysrwydd anfonebau a ddarparwyd i'w harchwilio. O ganlyniad, cyfeiriwyd y pryderon at Heddlu De Cymru ym mis Mehefin 2020. Yn dilyn ymchwiliad hirfaith, cafwyd Mrs Buckley yn euog o dwyll yn erbyn y Cyngor ym mis Mehefin 2022.

14 Hoffwn ddiolch i Mr Davies ac i Mrs Teisar am y cymorth y maent wedi ei ddarparu i mi wrth gwblhau fy archwiliad.

## Canfyddiadau allweddol

15 Yn ddealladwy, o ystyried amlygrwydd y Cyngor yn y dref, bu diddordeb sylweddol ymhlith aelodau'r cyhoedd mewn digwyddiadau yn y Cyngor a dyfalu yn eu cylch. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi nad yw rhai aelodau wedi helpu'r sefyllfa drwy gyhoeddi gwybodaeth ar adeg y gallai hynny fod wedi cael effaith niweidiol ar yr ymchwiliad troseddol. Rwyf o'r farn, yn y cyswllt hwn, fod gweithredoedd yr aelodau hyn ymhell iawn o fodloni'r safon y dylid ei disgwyl gan gynrychiolwyr etholedig.

16 Er gwaethaf y ffaith mai Mrs Buckley sy'n bennaf gyfrifol am y twyll, rwyf o'r farn bod gan aelodau'r Cyngor a oedd yn gwasanaethu yn ystod deiliadaeth Mrs Buckley fel Clerc rywfaint o gyfrifoldeb am ganiatáu amgylchedd yr oedd Mrs Buckley yn gallu manteisio arno. Fy nghanfyddiadau a fy safbwyntiau rhagarweiniol yw bod y Cyngor, trwy gydol cyfnod Mrs Buckley fel Clerc, wedi methu â bodloni'r safonau gofynnol o reolaeth ariannol a llywodraethu y byddwn yn disgwyl iddynt fod yn weithredol, mewn Cyngor fel Cyngor Tref Maesteg.

17 O ganlyniad uniongyrchol i'r methiannau hyn gan aelodau'r Cygnor y llwyddodd Mrs Buckley i dwyllo'r Cyngor allan o £238,000 neu fwy.

18 Yn ogystal ag egluro sut y llwyddodd Mrs Buckley i fanteisio ar fethiant y Cyngor, nodaf isod wendidau yn nhrefn lywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor a nodwyd yn ystod fy archwiliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y Cyngor yn methu â chydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cyflwyno ei gyfrifon i gael eu harchwilio ar gyfer 2016-17 a 2017-18;
- anghysondebau a hepgoriadau arwyddocaol yn systemau a chofnodion y Cyngor – roedd llawer o'r ffigurau a oedd wedi'u cynnwys yn y datganiadau blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ac a gyflwynwyd i'w harchwilio yn cyd-fynd â chofnodion sylfaenol y Cyngor er ei bod yn debyg bod aelodau wedi dilysu'r wybodaeth;
- y ffaith bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r datgeliadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei ddatganiadau blynyddol; a
- bod y Cyngor wedi methu â sicrhau ei fod wedi penodi archwilydd mewnol yn briodol ac yn sgil hynny na nododd fod yr adroddiadau archwilio mewnol honedig a dderbyniwyd ganddo wedi eu ffugio gan y cyn Glerc.

19 Ystyrir fy nghanfyddiadau manwl yn fanylach yng ngweddill y ddogfen hon.

# Argymhellion

20 Nododd fy archwiliad fethiannau sylweddol gan y Cyngor dros gyfnod estynedig. Rwy'n gwneud cyfres o argymhellion felly a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i wella ei drefniadau rheolaeth ariannol ac yn lleihau'r perygl y bydd twyll tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Rwy'n gwneud wyth argymhelliad i fynd i'r afael â'r materion yr wyf wedi eu hamlygu yn yr adroddiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Mae'n rhaid i'r Cyngor roi ei gyfrifoldebau llywodraethu a stiwardiaeth ariannol yn uchel ar ei agenda a sicrhau bod ganddo graffu priodol ar waith ar waith y Clerc a'r Dirprwy Glerc. |
| A2 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl aelodau yn dilyn ei reolaethau mewnol priodol, gan gynnwys awdurdodi taliadau. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A3 | Mae'n rhaid i'r Cyngor nodi anghenion hyfforddi ei Glerc a'i Ddirprwy Glerc (yn enwedig o ran cyfrifyddu a chyllid) a chymryd camau i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. |
| A4 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r trefniadau archwilio allanol bob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cynnwys adolygu cynnwys y datganiad blynyddol yn ofalus mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor cyn cymeradwyo'r datganiad i'w gyflwyno ar gyfer archwiliad allanol. |
| A5 | Mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu'r argymhellion a wnaed gan ei archwilydd mewnol yn 2020 a sicrhau bod y prosesau a roddwyd ar waith yn gweithredu'n effeithiol. |
| A6 | Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo cynllun parhad busnes sy'n cynnwys trefniadau i'w rhoi ar waith i liniaru effeithiau niweidiol methiant TG. |
| A7 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnodion cywir a chyfredol o'i TAW adenilladwy a chyflwyno hawliadau ar gyfer ad-daliad yn flynyddol. |
| A8 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cymryd cyfrifoldeb am benodi ei archwilydd mewnol a bod ganddo drefniadau ar waith i'r Cyngor fod â chysylltiad uniongyrchol â'r archwilydd mewnol fel sy'n briodol. |

# Y camau nesaf

21 Yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn bellach mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn.

22 O leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sydd ar gael yn y gymuned yn nodi:

- amser a lleoliad y cyfarfod;
- bod y cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried adroddiad er budd y cyhoedd; a
- disgrifiad o gynnwys yr adroddiad.

23 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw’r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad; a
- pha gamau (os o gwbl) i’w cymryd mewn ymateb i’r adroddiad a’r argymhellion.

24 Yna, bydd angen i’r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd sydd ar gael yn y gymuned.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

# Adroddiad manwl

## Rhwng mis Mawrth 2016 a mis Rhagfyr 2019, fe wnaeth y cyn Glerc dwyllo'r Cyngor allan o £238,000

25 Nododd fy ngwaith archwilio i a'r hyn a wnaed gan Mr Davies fod Mrs Buckley wedi twyllo'r Cyngor allan o £238,000 rhwng mis Mawrth 2016 a mis Rhagfyr 2019. Mae hyn yn cyfateb i 27% o gyfanswm gwariant nad yw'n dâl ym mhob blwyddyn ariannol.

26 Yng ngweddill yr adroddiad hwn, cyfeirir at Mrs Buckley fel y cyn Glerc.

27 Yn ystod ei chyfnod fel Dirprwy Glerc, roedd y cyn Glerc yn gyfrifol am weinyddu cyllid y Cyngor o ddydd i ddydd. Ar ôl ei phenodi fel Clerc, hi oedd â'r unig gyfrifoldeb am weinyddu'r cyllid, gan gynnwys cadw cyfrifon a gwneud taliadau.

28 Gwnaeth y cyn Glerc daliadau i'w hun, i aelodau o'i theulu, i Eglwys Gatholig Our Lady and St Patrick, grŵp codi arian cysylltiedig â'r Eglwys (a adnabuwyd fel y Flower Group) a chyflenwr i grŵp cymunedol. Cyflwynir y taliadau a wnaed ym mhob blwyddyn ariannol yn **Arddangosyn 3** isod. Mae Mrs Buckley wedi datgan nad oedd yr un o'r partïon hyn yn ymwybodol o'r twyll nac wedi chwarae unrhyw ran ynddo. Ac eithrio hi ei hun, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ymwybyddiaeth o gamweithredu ar ran derbynwyr y taliadau hyn.

**Arddangosyn 3: taliadau twyllodrus a wnaed gan y cyn Glerc**

O 2015-16 i 2019-20, gwnaeth y cyn Glerc daliadau twyllodrus i wahanol unigolion a grwpiau yn dod i gyfanswm o £238,821 sy'n cyfateb i 18% o'i wariant nad yw'n dâl ar gyfer y cyfnod.

| | 2015-16<br>£ | 2016-17<br>£ | 2017-18<br>£ | 2018-19<br>£ | 2019-20<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| M Buckley | 2,310 | 12,632 | 18,515 | 15,170 | 31,968 | 80,595 |
| Aelodau teulu | 0 | 3,350 | 500 | 0 | 0 | 3,850 |
| Eglwys Gatholig Our Lady and St Patrick | 0 | 8,163 | 9,116 | 1,587 | 0 | 18,866 |
| The Flower Group | 49,144 | 48,207 | 25,780 | 8,745 | 3,019 | 134,895 |
| Cyflenwr i grŵp cymunedol | 0 | 615 | 0 | 0 | 0 | 615 |
| Cyfanswm | 51,454 | 72,967 | 53,911 | 25,502 | 34,987 | 238,821 |
| Twyll fel % o gyfanswm gwariant nad yw'n dâl | 19.8% | 26.6% | 22.3% | 8.0% | 16.6% | 18.2% |

Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan Gyngor Tref Maesteg i Heddlu De Cymru

29 Mae'r ffynonellau allweddol o dystiolaeth sy'n ategu llinell amser y taliadau twyllodrus uchod yn cynnwys llyfr arian y Cyngor a chopïau o sieciau a dalwyd h.y. sieciau a oedd wedi clirio cyfrif banc y Cyngor. Galluogodd y rhain i daliadau nad oeddent wedi eu cofnodi yn llawn, yn gywir, neu o gwbl, yn llyfr arian y Cyngor i gael eu nodi a galluogodd i dderbynwyr y taliadau siec gael eu hadnabod.

30 Nid oedd unrhyw gofnodion cyfrifyddu ar gael gan y Cyngor ar gyfer y cyfnod cyn mis Ebrill 2015. Fodd bynnag, mae'r £49,144 o daliadau i'r Flower Group yn ystod 2015-16 yn cynnwys £13,212 o daliadau siec a wnaed cyn mis Ebrill 2015. Mae'n bosibl felly fod mwy o daliadau afreolaidd wedi eu gwneud cyn mis Ebrill 2015.

31 Unionwyd colledion y Cyngor drwy hawliad yswiriant o dan warant cywirdeb. Gwnaeth y cwmni yswiriant daliad setlo o £234,590 ym mis Rhagfyr 2021.

## Fe wnaeth aelodau'r Cyngor ymddwyn yn amhriodol pan bostiwyd gwybodaeth gyfrinachol am y twyll honedig ar y pryd ar gyfryngau cymdeithasol

32 Daeth yn eglur yn ystod fy archwiliad ac ymchwiliad yr heddlu fod aelodau'r Cyngor yn postio gwybodaeth gyfrinachol ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys manylion yr archwiliad mewnol a gynhaliwyd gan Mr Davies a'r hawliad a'r setliad yswiriant dilynol.

33 Ddechrau 2020, penododd y Cyngor Mr Davies i ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2019-20. Ym mis Gorffennaf 2020, adroddodd Mr Davies ei ganfyddiadau i'r Cyngor, gan dynnu sylw at afreoleidd-dra, gan gynnwys anfonebau yr oedd yn ymddangos iddynt gael eu ffugio.

34 Wrth gymeradwyo cyfrifon 2019-20, gofynnodd yr aelodau i'r Clerc dros dro ar y pryd (Mrs Teisar) i roi copi o adroddiad yr archwiliad mewnol ar wefan y Cyngor. Ar ôl i hyn gael ei wneud, cyhoeddwyd dolen i'r adroddiad ar dudalen Facebook Plaid Lafur Llynfi â sylwadau yn ymwneud â'r grŵp a oedd â rheolaeth ar y pryd.

35 Ar yr adeg hon, roedd ymchwiliadau'r heddlu ar ei gamau cynnar. Roedd yn gwbl amhriodol felly fod aelodau wedi cyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â'r ymchwiliad a gwneud sylwadau cyhoeddus arno. I gyfyngu unrhyw gyhoeddiad amhriodol pellach o wybodaeth gyfrinachol ac i gyfyngu ar ganlyniadau niweidiol, cynghorodd Heddlu De Cymru a fy nhîm archwilio Mrs Teisar i beidio â darparu unrhyw wybodaeth fanwl bellach i aelodau am y twyll.

36 Yn dilyn ei adroddiad o fis Gorffennaf 2020, fe wnaeth y Cyngor ymestyn cwmpas ei archwiliad. Yna, archwiliodd Mr Davies gofnodion cyfrifyddu'r Cyngor o fis Ebrill 2015 i fis Rhagfyr 2019, gan gymharu'r taliadau a gofnodwyd yn y llyfr arian â derbyniadau ac anfonebau a oedd ar gael. Cynorthwyodd fy nhîm archwilio Mr Davies gan ddarparu manylion taliadau siec o gopïau o sieciau a dalwyd.

37 Ym mis Tachwedd 2020, cyflwynodd Mr Davies adroddiad i'r Cyngor ar ganlyniad ei waith archwilio mewnol. Tynnodd yr adroddiad hwn sylw at ei bryderon ynghylch trafodiadau a allai fod yn afreolaidd. Nododd Mr Davies yn ei adroddiad ei bod yn amhriodol i fanylion pellach gael eu datgelu oherwydd yr ymchwiliad heddlu a oedd yn parhau.

38 Ym mis Tachwedd 2021, cytunodd yswirwyr y Cyngor i setlo hawliad y Cyngor o dan ei yswiriant Gwarant Cywirdeb ar gyfer £234,590. Trafodwyd hyn gan y Cyngor mewn cyfarfod caeedig ar 16 Tachwedd 2021.

39 Cynhaliwyd y cyfarfod ei hun o bell ac mae'r cofnodion yn cofnodi rhywfaint o darfu a sŵn cefndirol:

'Ers mynd i mewn i'r Pwyllgor daeth yn amlwg bod rhai Aelodau mewn 2 gyfarfod ar yr un pryd oherwydd y sŵn cefndirol a'r atsain a oedd yn cael eu clywed. Gofynnodd y Maer i'r aelodau benderfynu pa gyfarfod yr hoffent fod yn rhan ohono gan ein bod bellach yn y Pwyllgor ac wedi gwahardd y cyhoedd. Yn dilyn y cais cychwynnol hwn, gellid clywed sŵn cefndirol o hyd…'

40 Hefyd, anfonwyd manylion cynnig yr yswiriwr i'r aelodau cyn y cyfarfod fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith. O fewn diwrnodau i gynnig y setliad, roedd manylion wedi eu postio ar gyfryngau cymdeithasol gan aelod nad oedd yn aelod nac yn swyddog presennol. Tynnodd Mrs Teisar sylw'r aelodau at hyn yng nghyfarfod 16 Tachwedd 2021:

'Dywedodd y Clerc fod cynnwys yr E-bost Cyfrinachol wedi ei drafod gydag aelodau'r cyhoedd. Derbyniodd y clerc alwad ffôn gan gontractwr ROW blaenorol a dywedodd y Cadeirydd Cyllid y bu neges ar Twitter a wnaed gan [golygwyd] a neges arall yn dweud bod y Blaid Lafur yn anhapus bod ffigur y setliad gwreiddiol wedi ei ddatgelu.'

41 Gan fod yr wybodaeth am y setliad wedi ei darparu i'r aelodau ar gyfer cyfarfod caeedig, roedd yr aelodau yn gwbl ymwybodol ei bod yn gyfrinachol ac na ddylid ei thrafod y tu allan i'r cyfarfod. Nid wyf wedi gallu darganfod pa aelod ddatgelodd yr wybodaeth gyfrinachol i'r unigolyn a bostiodd ar gyfryngau cymdeithasol.

42 Yn fy marn i, roedd yn gwbl anghyfrifol ac yn debygol o fod yn groes i'r Cod Ymddygiad, i aelodau unigol gyhoeddi gwybodaeth a oedd yn gyfrinachol. Gallai datgeliad o'r fath fod wedi rhagfarnu ymchwiliad yr heddlu a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd.

## Methodd aelodau'r Cyngor a wasanaethodd yn ystod cyfnod y cyn Glerc â sicrhau bod gweithdrefnau ariannol priodol y Cyngor yn cael eu dilyn

43 Gwnaed gweithgarwch twyllodrus y cyn Glerc yn haws gan y ffaith i'r aelodau fethu â chraffu yn briodol ar yr wybodaeth ariannol a gyflwynwyd ganddi mewn cyfarfodydd Cyngor, a'r ffaith bod aelodau wedi methu â sicrhau bod cyfarfodydd Pwyllgor Cyllid yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn briodol. Fe'i hwyluswyd hefyd gan aelodau unigol yn osgoi gweithdrefnau priodol y Cyngor drwy lofnodi sieciau gwag.

### Methodd y Cyngor yn ei gyfanrwydd â chraffu'n briodol ar yr wybodaeth ariannol a gyflwynwyd gan y cyn Glerc

44 Er gwaethaf y diffygion a ganfuwyd yn ystod fy archwiliad ac a esbonnir isod, mae cofnodion y Cyngor yn cofnodi bod aelodau mewn gwirionedd wedi trafod a chymeradwyo'r cyfrifon yn dilyn proses ddilysu.

45 Er enghraifft, mae cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2017 yn cofnodi:

'Cadarnhaodd y Clerc fod yr asesiad risg tri misol/asesiadau a dilysiadau risg blynyddol ar weithdrefnau ac arferion cyfrifyddu wedi eu cynnal, yn unol â'r ddogfen Polisi Asesu Risg a Rheoliadau Ariannol y Cyngor, gan y Maer, y Dirprwy Faer a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Argymhellwyd felly fod y Cyngor yn cadarnhau bod y rheolaethau priodol ar waith a bod cydymffurfiad â nhw.

Astudiodd yr Aelodau'r dogfennau gan godi sawl cwestiwn, a eglurwyd/cyflenwyd gwybodaeth ac a gadarnhawyd. Cytunodd yr Aelodau, a oedd yn gwbl fodlon â'r dogfennau diwedd blwyddyn, i Argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo a chadarnhau Cyfrifon Diwedd Blwyddyn 2016-2017 ac adroddiadau ategol.'

46 Mae cofnodion y cyfarfodydd Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2016 a mis Mai 2018 yn cofnodi'r un datganiadau yng nghyswllt cyfrifon 2015-16 a 2017-18, yn eu trefn.

47 Fodd bynnag, fel yr adroddir isod, nododd fy archwiliad nad oedd y cyfrifon a gymeradwywyd gan y Cyngor yn cyd-fynd â'r cofnodion sylfaenol mewn gwirionedd.

48 Mae'r cofnodion hefyd yn cofnodi y cyflwynwyd atodlen o daliadau a wnaed gan y Cyngor ym mhob cyfarfod Cyngor llawn. Er enghraifft, mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 yn cofnodi:

'Penderfynwyd: Y dylai'r Rhestr o Daliadau a wnaed gan y Cyngor yn ystod mis Mehefin 2017, y rhannwyd copi ohoni ymhlith yr Aelodau, gael ei derbyn, ei chadarnhau a'i llofnodi gan y Maer.'

Caiff y datganiad hwn ei ailadrodd yn y cofnodion ar gyfer pob cyfarfod Cyngor llawn.

49 Mae'r cyn Glerc wedi datgan y cyflwynwyd yr atodlenni hyn yn fisol a'u bod wedi eu hanfon i aelodau cyn y cyfarfodydd. Mae'r aelodau wedi nodi bod yr atodlenni hyn yn anghyflawn ar adegau.

50 Nid yw'n ymddangos bod y Cyngor wedi cwestiynu'n fanwl lefel y gwariant a oedd yn cael ei wneud. Fel y dangosir yn **Arddangosyn 3** uchod, roedd y taliadau twyllodrus yn 2016-17 yn fwy na 25% o gyfanswm gwariant nad yw'n ymwneud â thâl y Cyngor. Nid yw'n ymddangos bod yr aelodau wedi cwestiynu ar beth yr oedd yr arian yn cael ei wario ar unrhyw adeg.

51 Mae'n eglur felly nad oedd lefel y craffu a wnaeth yr aelodau ar wybodaeth ariannol, sefyllfa ariannol a chyfrifon diwedd blwyddyn y Cyngor yn ddigon trwyadl.

## Methodd yr aelodau â sicrhau bod y cyn Glerc yn cynnal cyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cyngor yn briodol a phan wnaeth gyfarfod methodd ag archwilio sefyllfa ariannol y Cyngor mewn modd effeithiol

52 Mae gan y Cyngor Bwyllgor Cyllid hirsefydlog. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod y cyn Glerc, ni wnaeth y pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd (gweler **Arddangosyn 4** isod). Fe'm hysbysir y byddai'r cyn Glerc yn trefnu cyfarfodydd ond y byddent yn cael eu canslo wedyn ar fyr-rybudd.

**Arddangosyn 4: cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid**

Er ei fod yn hirsefydlog, ni wnaeth y Pwyllgor Cyllid gyfarfod yn rheolaidd yn ystod cyfnod y cyn Glerc fel Clerc

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd[2] | 5 | 3 | 1 | 3[3] |

Ffynhonnell: cofnodion Cyngor Tref Maesteg

53 Mae'r cyn Glerc wedi datgan bod cyfarfodydd wedi eu canslo am nifer o resymau gan gynnwys y ffaith nad oedd dogfennau ar gael cyn y cyfarfod a drefnwyd e.e. oherwydd methiant TG a'r ffaith nad oedd cworwm mewn cyfarfodydd. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod yr aelodau wedi cymryd camau i sicrhau bod cyfarfodydd a drefnwyd yn cael eu cynnal mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod yr achosion ailadroddus o ganslo cyfarfodydd wedi eu derbyn gan yr aelodau heb godi pryderon.

54 Fodd bynnag, nododd fy archwiliad o gofnodion y Pwyllgor Cyllid sawl achos o aelodau yn mynegi pryder bod y cyn Glerc wedi methu â darparu gwybodaeth

[2] Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol o fis Ebrill i fis Mawrth.

[3] Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 cyn ymadawiad y cyn Glerc.

ariannol i'r aelodau cyn cyfarfodydd, er y gwnaed cais iddi wneud hynny ar fwy nag un achlysur. Bydd y methiant hwn wedi cyfyngu ar allu aelodau'r Cyngor i ystyried a chraffu'n briodol ar yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y cyfarfodydd gan arwain at aelodau'n gwneud penderfyniadau nad oeddent yn seiliedig ar ddealltwriaeth briodol o sefyllfa ariannol y Cyngor.

## Methodd aelodau a oedd yn llofnodwyr sieciau â dilyn proses briodol gan lofnodi sieciau 'gwag', a thrwy hynny hwyluso'r twyll a gyflawnwyd gan y cyn Glerc

55 Trwy gydol deiliadaeth y cyn Glerc, gwnaeth y Cyngor daliadau drwy siec. Roedd ei drefniadau rheolaeth fewnol yn ei gwneud yn ofynnol i bob siec gael ei lofnodi gan y Clerc presennol a dau aelod. Roedd yr aelodau i fod i lofnodi'r sieciau ar ôl gweld anfoneb wreiddiol a chwblhau manylion y taledig ac ati ar y sieciau eu hunain ymlaen llaw.

56 Mae cofnodion cyfarfod eithriadol y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2020 yn cofnodi:

'Roedd y llofnodwyr cyfrif cyfredol wedi eu twyllo; dangoswyd anfonebau iddynt ond nid oedd manylion wedi'u hysgrifennu ar y sieciau.'

57 Mae'r cyn Glerc wedi dweud nad oedd bob amser yn darparu copïau o anfonebau i aelodau ond bod ffeil anfonebau ar gael er gwybodaeth y cynghorwyr. Parodrwydd yr aelodau i lofnodi sieciau heb i'r sieciau hynny gael eu cwblhau yn briodol ymlaen llaw a heb archwilio anfonebau ategol a gyfrannodd fwyaf at allu'r cyn Glerc i dwyllo'r Cyngor.

58 Yn rhan o'r broses archwilio, cyfwelais aelodau presennol a blaenorol a oedd wedi bod yn eu swyddi ac yn llofnodwyr awdurdodedig yn ystod cyfnod y cyn Glerc, ynghyd â Mrs Fielding, sef y Clerc pan roedd y cyn Glerc yn gwasanaethu fel dirprwy Glerc. Yn ddieithriad, cyfaddefodd pob un ohonynt eu bod wedi llofnodi sieciau gwag h.y. sieciau lle nad oedd unrhyw fanylion taledigion na symiau wedi eu hysgrifennu ar y siec. Hawliodd rhai mai dim ond weithiau yr oedd hyn yn digwydd.

59 Fodd bynnag, nid wyf yn credu ei bod yn gredadwy bod y rhain yn ddigwyddiadau ynysig nac achlysurol na bod aelodau yn craffu ar anfonebau cyn iddynt lofnodi'r sieciau gwag:

- mae nifer y taliadau siec twyllodrus a pha mor aml y gwnaed y taliadau yn dynodi nad oedd llofnodi sieciau gwag yn broses anarferol.
- roedd rhai o'r taliadau siec a wnaed i'r cyn Glerc, i'r Eglwys ac i'r Flower Group ar gyfer miloedd lawer o bunnoedd. Pe bai'r aelodau wedi craffu ar unrhyw anfonebau ategol, dylent fod wedi gofyn cwestiynau ynghylch pam roedd y Cyngor yn gwneud y gwariant.

60 Yn fy marn i, roedd methiant systemig gan yr holl lofnodwyr awdurdodedig i graffu ar y taliadau a wnaed. Methodd pob un o'r llofnodwyr sieciau â chyflawni'r cyfrifoldeb a ddirprwywyd iddynt gan y Cyngor llawn yn briodol.

## Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cyflwyno ei gyfrifon i'w harchwilio

61 O dan Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n rhaid i'r Cyngor:

- lunio ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth; a
- sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â'r Ddeddf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

62 Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf datganiad blynyddol syml a anfonir i'r Cyngor bob blwyddyn. Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon cyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yna, mae'n rhaid i'r Cyngor anfon y cyfrifon at yr Archwilydd Cyffredinol a chyhoeddi ei gyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi.

63 Er bod y Cyngor wedi bodloni'r terfyn amser ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18, ni wnaeth gydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cyflwyno ei gyfrifon i'w harchwilio ar gyfer y naill flwyddyn ariannol na'r llall (**Arddangosyn 5** isod). Mae'r oediadau hyn yn arwyddocaol ac yn annerbyniol.

**Arddangosyn 5: y dyddiadau y cymeradwywyd cyfrifon y Cyngor ac y'u cyflwynwyd i'w harchwilio**

| Blwyddyn ariannol | Dyddiad y cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyngor | Dyddiad y'u cyflwynwyd i'w harchwilio |
|---|---|---|
| 2016-17 | 2 Mai 2017 | 13 Chwefror 2019 |
| 2017-18 | 6 Mehefin 2018 | 4 Chwefror 2019 |

Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru

64 Priodolodd y cyn Glerc yr oedi a adroddir uchod i'r ffaith bod y Cyngor wedi dioddef problemau TG, wedi colli rhai o'i gofnodion a'r angen i'w hadfer. Rwy'n rhoi sylw i'r mater hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

65 Beth bynnag, bu'n rhaid i mi bwyso ar y cyn Glerc dros gyfnod estynedig i ddarparu'r dogfennau angenrheidiol. Creodd hyn waith archwilio ychwanegol a chynyddu'r gost y mae'n rhaid i'r trethdalwr lleol ei thalu. Ni dderbyniais unrhyw gofnodion tan fis Awst 2018, ac roedd y rhai a dderbyniais yn anghyflawn. Yn

wreiddiol, ni ddarparwyd dogfennau rhent nac o leiaf 19 o anfonebau yn ymwneud â dros £130,000 o drafodiadau gan y cyn Glerc. Ar ôl mynd ar drywydd y mater yn barhaus, derbyniais gopïau o'r anfonebau hyn o'r diwedd yng nghanol mis Ebrill 2019, er i mi nodi wedi hynny fod rhai o'r rhain yn ffug.

66 Pryder ehangach yw'r ffaith nad oes unrhyw gyfeiriad yn unrhyw un o gofnodion o gyfarfodydd y Cyngor at yr oedi sylweddol yn cwblhau'r archwiliadau blynyddol. Nid wyf o'r farn bod y Cyngor yn ei gyfanrwydd wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'w ddyletswydd o atebolrwydd am ei ddefnydd o arian cyhoeddus i drethdalwyr lleol Maesteg. Mae rhai aelodau wedi nodi nad oedd y Cyngor yn ymwybodol o'r methiannau a adroddir uchod ac na wnaeth cynghorwyr unigol a'r cyn Glerc hysbysu'r Cyngor am eu cysylltiadau â fy nhîm archwilio.

## Ceir anghysondebau a hepgoriadau sylweddol yn systemau a chofnodion cyfrifyddu'r Cyngor

67 Mae'n ofynnol i gynghorau Tref gadw cofnodion cyfrifyddu priodol i ddangos eu trafodiadau ariannol ac i alluogi eu Clerc[4] i baratoi'r datganiadau cyfrifyddu sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). Mae'n rhaid i'r Clerc sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn cael eu cynnal yn unol ag arferion priodol. Dylai'r cofnodion cyfrifyddu hyn fod yn gyson â'r ffigurau sydd yn y cyfrifon blynyddol a gyflwynir yn y datganiad blynyddol.

68 Nododd fy archwiliad anghysondebau a hepgoriadau sylweddol yn systemau a chofnodion cyfrifyddu'r Cyngor. Yn bwysig, nid yw llawer o'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ac a gyflwynwyd i'w harchwilio yn cyd-fynd â chofnodion sylfaenol y Cyngor.

### Rwyf wedi nodi diffygion yn systemau cyfrifyddu'r Cyngor

69 Rwyf wedi nodi yn **Arddangosyn 6** isod y meysydd lle mae'r systemau a'r cofnodion cyfrifyddu yn ddiffygiol.

[4] Mae swyddogaethau'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ar wahân yn gyfreithiol, ond rwyf wedi defnyddio'r term Clerc yn yr adroddiad hwn gan fod y ddwy swyddogaeth yn cael eu cyflawni gan yr un cyflogai. Cyfrifoldeb cyfreithiol y Swyddog Ariannol Cyfrifol yw paratoi'r datganiadau cyfrifyddu.

**Arddangosyn 6: diffygion a nodwyd yn systemau a chofnodion cyfrifyddu’r Cyngor**

| **Maes cyfrifyddu** | **Canfyddiad yr archwiliad** |
|---|---|
| Dylai fod gan y Cyngor lyfr arian parod neu ryw fath arall o gyfriflyfr ariannol lle cofnodir trafodiadau ariannol y Cyngor[5]. | Esboniodd y cyn Glerc fod y Cyngor wedi cael anawsterau gyda’i gyfrifiadur ac wedi colli sawl cofnod y bu’n rhaid eu hail-greu. Roedd hyn yn cynnwys ei lyfr arian parod. Cafwyd oediadau sylweddol cyn darparu copi o lyfr arian parod y Cyngor i mi, ac nid oedd yn cofnodi’r holl drafodiadau. |
| Dylai’r cofnodion yn y llyfr arian neu’r cyfriflyfr gael eu hategu gan ddogfennau gwreiddiol fel derbynebau ac anfonebau. | Fel y sonnir uchod, roedd oedi sylweddol cyn darparu anfonebau a chytundebau rhent i ategu’r derbynebau a’r taliadau a oedd wedi’u cofnodi yn y llyfr arian parod, ac roedd rhai o’r anfonebau yn ffug. |
| Dylai balans llyfr arian y Cyngor gael ei gysoni â chyfrif(on) banc y Cyngor yn rheolaidd. | Roedd gwahaniaethau rhwng balansau’r llyfr arian a’r cyfrifon a’r datganiadau banc ar gyfer 2016-17 a 2017-18. Dylai cofnodion ar gyfer dau siec a oedd heb eu newid fod wedi eu gwneud yn y llyfr arian. |

[5] Nodir arferion priodol yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ‘Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru’.

| Maes cyfrifyddu | Canfyddiad yr archwiliad |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor baratoi ei Ddatganiadau Blynyddol yn seiliedig ar ei 'incwm a gwariant', ag atodlen o'i falansau diwedd blwyddyn [6]. | Mae'r datganiad blynyddol ar gyfer 2017-18 yn dangos balans ar gyfer dyledwyr a stoc o £129,984. Mae hyn yn llawer uwch na'r balans o £93,352 a adlewyrchir mewn cofnodion sylfaenol.<br>Daeth llawer o'r prisiadau ar gyfer 'stoc a dyledwyr' (£93,352) o restr o asedau fel dodrefn ac offer swyddfa a phethau cofiadwy dinesig. Dylai'r eitemau hyn fod wedi eu cynnwys yn y balans ar wahân ar gyfer 'Asedau sefydlog ac asedau hirdymor' gan y bydd eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig yn mynd y tu hwnt i un flwyddyn.<br>Cofnodwyd trafodiadau cyflogres ar sail derbynebau a thaliadau yn hytrach nag ar sail croniadau fel sy'n ofynnol o dan arfer cyfrifyddu priodol. |

[6] Yn ofynnol o dan y Rheoliadau pan fo gan gynghorau drosiant o fwy na £200,000 y flwyddyn.

| Maes cyfrifyddu | Canfyddiad yr archwiliad |
|---|---|
| Dylai'r cofnodion yn y cyfrifon blynyddol gyd-fynd â llyfr arian parod a chofnodion sylfaenol y Cyngor. | Nid wyf wedi derbyn set gyflawn o bapurau gweithio i ddangos sut y cyfrifwyd yr holl gofnodion yn y naill Ddatganiad Ariannol na'r llall.<br>Nid yw llawer o'r cofnodion yn y datganiad blynyddol yn cyd-fynd â'r cofnodion sylfaenol a'r llyfr arian parod (gweler y sylwadau ar ddyledwyr a stociau uchod).<br>Roedd y cofnodion hyn yn cynnwys y rhai ar gyfer 'derbynebau eraill', 'costau staff' a 'dyledwyr a stociau'. Canfu fy archwiliad bedwar achos arall lle'r oedd anghysondeb rhwng cofnodion y Datganiadau Blynyddol a chofnodion a ddarparwyd i mi.<br>Mae Datganiadau Blynyddol y Cyngor yn dangos praesept o £295,500 ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17. Fodd bynnag, gwnaed penderfyniad yng 'Nghyfarfod Arbennig' y Cyngor ar 12 Ionawr 2016 i bennu praesept o £293,877 ar gyfer 2016-17. Ddiwrnod yn ddiweddarach, dywedodd y Clerc wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y byddai'r cais am braesept yn £295,500 a dyma'r swm a dderbyniwyd. |
| Dylid dangos cofnodion yn y cyfrifon ar sail gros, ac ni ddylid dangos incwm a gwariant ar weithgareddau ar sail net. | Mae'r gyfran o incwm tocynnau wedi'i didynnu ar sail net yn erbyn costau llogi neuadd a gwasanaethau arlwyo yn gysylltiedig â'r Ŵyl Flynyddol. |

Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru

## Methodd y Cyngor â chynnal trefniadau priodol i weinyddu cyflogres a chynllun Talu Wrth Ennill

70 Fel cyflogwr, mae'n rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o gyflogau cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnir i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) bob mis neu dri mis ynghyd â Chyfraniadau

Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Talu Wrth Ennill yw enw'r system hon. Mae'n rhaid i ddidyniadau Talu Wrth Ennill gael eu talu i CThEM. Mae'n rhaid i bob cyflogwr gadw cofnodion cyflogres hefyd.

71 Yn seiliedig ar y dystiolaeth yr wyf i wedi ei gweld o ran cyflogres a chynllun Talu Wrth Ennill yng Nghyngor Maesteg, rwyf wedi dod i'r casgliad na weithredwyd y gyflogres yn gywir yn ystod 2016-17 a 2017-18. Mae problemau TG a'r ddibyniaeth am gyfnod ar gymorth asiantaeth dros dro yn absenoldeb y Dirprwy Glerc wedi cyfrannu at yr anawsterau y mae'r Cyngor wedi eu dioddef.

72 Yn benodol, rwyf wedi canfod y canlynol:

- bod contract cyflogaeth y Dirprwy Glerc yn anghyflawn;
- bod taliadau cyflog i'r Clerc a'r Dirprwy Glerc wedi eu gwneud islaw'r symiau a nodwyd ar raddfeydd cyflog perthnasol y Cyd-gyngor Cenedlaethol;
- bod y Cyngor wedi methu â gweithredu cynyddrannau cyflog ar gyfer 2017-18;
- y bu taliad annigonol o dreth a oedd yn ddyledus i CThEM;
- bod taliadau i gyflogeion yn cael eu gwneud ar sail afreolaidd oherwydd anhawster wrth gael digon o lofnodwyr sieciau; a
- bod gwallau wedi eu gwneud o ran cyfraniadau pensiwn i'r Gronfa Pensiwn Llywodraeth Leol.

73 Mae'r holl anghysondebau a nodir uchod wedi eu cywiro erbyn hyn.

## Mae'r Cyngor wedi colli incwm oherwydd ei fethiant i adennill TAW ar daliadau cymwys

74 Fel corff a gwmpesir gan Adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth 1994, gall y Cyngor adhawlio TAW a delir ar bryniannau. I wneud hynny, dylai'r Cyngor gael derbynebau ac anfonebau TAW priodol yn nodi manylion perthnasol TAW a dalwyd a rhif cofrestru TAW y cyflenwr.

75 Fodd bynnag, ni ddaeth fy archwiliad o hyd i unrhyw dystiolaeth o dreth yn cael ei hadhawlio gan Gyllid a Thollau EM yn ystod 2016-17 na 2017-18. O'r sampl o 85 o bryniannau y canfuwyd anfonebau ar eu cyfer yn y pen draw, roedd 19 o daliadau yn cynnwys TAW. Roedd y TAW na adhawliwyd ar yr anfonebau hynny yn dod i gyfanswm o £23,129. Mae hwn yn incwm sydd o bosibl wedi'i golli i'r Cyngor y mae'n rhaid gwneud iawn amdano drwy ddulliau eraill, yn yr achos hwn o'r praesept a ariennir yn y pen draw gan y trethdalwr lleol.

76 Lluniodd Mr Davies a Mrs Teisar hawliad TAW wedi hynny ar gyfer blynyddoedd ariannol 2017-18 i 2019-20 ac fe wnaethant lwyddo i adennill TAW a oedd yn dod i gyfanswm o £68,684. Nid oedd y Cyngor yn gallu adennill unrhyw TAW ar gyfer unrhyw flynyddoedd blaenorol.

# Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r datgeliadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei ddatganiadau blynyddol

77 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol ochr yn ochr â'r cyfrifon. I fodloni'r gofyniad hwn, mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys datganiad llywodraethu blynyddol lle mae'r Cyngor yn gwneud cyfres o haeriadau am y trefniadau sydd ganddo ar waith ar gyfer ei drefn lywodraethu a'i reolaeth ariannol.

78 Er y gall geiriad gwirioneddol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol amrywio o un flwyddyn i'r llall, mae'n cwmpasu yn gyffredinol yr eitemau ('haeriadau' neu ddatganiadau am lywodraethu'r Cyngor) a nodir yn **Arddangosyn 7** (ar gyfer 2017-18). Mae **Arddangosyn 7** hefyd yn dangos ymateb y Cyngor i'r materion hynny a fy asesiad archwilio ar gyfer 2017-18.

**Arddangosyn 7: Methodd aelodau'r Cyngor a wasanaethodd yn ystod cyfnod y cyn Glerc â sicrhau bod gweithdrefnau ariannol priodol y Cyngor yn cael eu dilyn**

Mae haeriadau'r Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn anghyson â'm hasesiad o drefniadau'r Cyngor.

| Haeriad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| Wedi paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu yn briodol. | Do | Ddim yn cydymffurfio ac mae ymateb y Cyngor yn anghywir (gweler paragraffau 62 – 70). |
| Wedi cynnal ac adolygu effeithiolrwydd system addas o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau y bwriedir iddynt atal a chanfod twyll a llygredigaeth. | Do | Ddim yn cydymffurfio ac mae ymateb y Cyngor yn anghywir. |
| Wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau, rheoliadau a chodau ymarfer. | Do | Ddim yn cydymffurfio ac mae ymateb y Cyngor yn anghywir. |

| Haeriad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| Wedi cynnig cyfle priodol i arfer hawliau etholwyr o ran y cyfrifon. | Do | I'w gwblhau ar ôl i fy ngwaith archwilio gael ei gwblhau. |
| Wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r cyngor. | Do | Ddim yn cydymffurfio ac mae ymateb y Cyngor yn anghywir. |
| Wedi cynnal system addas ac effeithiol o archwilio mewnol. | Do | Ddim yn cydymffurfio – ni nodwyd yr archwilydd mewnol y mae ei enw yn ymddangos ar ddatganiadau blynyddol 2016-17 a 2017-18 fel y'u cyflwynwyd yn wreiddiol. |
| Wedi ystyried effaith ariannol unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodiadau. | Do | Ni adolygwyd hyn. |
| Cymerwyd camau priodol o ran adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. | Naddo | Mae'r Cyngor wedi datgelu ei fod yn dal i weithio i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan ei archwilydd mewnol. |
| Wedi ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor wrth bennu ei gyllideb. | Dim ymateb | Nid yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw dystiolaeth ynghylch hyn. |
| Wedi cynnal cyfrif ar wahân o grantiau a wnaed o dan adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Dim ymateb | Ddim yn cydymffurfio. |

Ffynhonnell: Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Tref Maesteg a dadansoddiad Archwilio Cymru

## Mae haeriadau'r Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn ffeithiol anghywir ac yn gamarweiniol

79 Ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf a gwmpesir gan fy archwiliad, 2016-17 a 2017-18, cwblhaodd y Cyngor ei ddatganiadau ar y sail ei fod yn cydymffurfio'n llawn, neu bron yn llawn, â'r disgwyliadau a nodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau cyhoeddedig. Yr unig ddiffyg a adroddwyd oedd nad oedd y Cyngor wedi cymryd camau priodol yn ystod 2017-18 i fynd i'r afael a'r problemau a'r gwendidau y tynnwyd ei sylw atynt gan ei archwilwyr mewnol ac allanol.

80 Yn seiliedig ar fy ngwaith archwilio a'r materion yr wyf wedi adrodd arnynt yn y ddogfen hon, mae haeriadau'r Cyngor yn ffeithiol anghywir ac yn gamarweiniol yn fy marn i.

81 Hefyd, yn ei ddatganiad ar gyfer 2017-18, ni wnaeth y Cyngor ddarparu ateb ar dri mater. Y rhain oedd:

- pa un a ystyriwyd cronfeydd wrth gefn pan bennwyd y gyllideb, gan lunio cynlluniau ar gyfer eu defnydd;
- pa un a gadwyd cofnodion o grantiau a roddwyd o dan adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac y rhoddwyd ystyriaeth i werth unrhyw fuddion a ddeilliodd o hynny; a
- pha un a roddwyd unrhyw arian rhodd i gyflogeion ac, os felly, a oedd gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i'w talu (nid yw'r cyfrifon yn cynnwys unrhyw daliadau o arian rhodd i gyflogeion).

82 Yn yr achosion hyn, rwyf wedi dod i'r casgliad:

- nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol o ran cronfeydd wrth gefn a grantiau a137; ac
- o ran arian rhodd gwasanaeth, nad oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaeth gytundebol i wneud taliadau o'r fath ac nid yw wedi gwneud hynny.

## Ni wnaeth y Cyngor sefydlu system archwilio mewnol addas ac effeithiol cyn penodi Mr Davies yn 2019

83 Mae archwilio mewnol yn elfen bwysig o system unrhyw gyngor o reolaeth fewnol ac yn darparu llawer o'r sicrwydd sydd ei angen i'r Cyngor gymeradwyo ei ddatganiad llywodraethu blynyddol. Mae'n bwysig felly fod y Cyngor yn deall y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr archwilydd mewnol ac yn derbyn adroddiadau yn uniongyrchol gan yr archwilydd.

84 Yn seiliedig ar y datganiadau blynyddol a gyflwynwyd i'w harchwilio gan y cyn Glerc ar gyfer tair blwyddyn ariannol 2015-16, 2016-17 a 2017-18, darparwyd yr archwiliad mewnol gan P James.

85 Nid wyf i na'r Cyngor wedi gallu darganfod pwy yw P James a chysylltu ag ef/hi. Nid oedd yr aelodau yn gallu esbonio sut roedd ef/hi wedi ei b/phenodi. Yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng y Cyngor a P James.

86 Er ei bod yn ymddangos bod yr adroddiadau archwilio mewnol wedi nodi rhai problemau, yn ymwneud â methiannau TG yn bennaf, mae'n eglur nad yw'r

sicrwydd a ddarparwyd i'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan y dystiolaeth a ganfuwyd gan fy nhîm archwilio a Mr Davies.

87 Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, rwy'n dod i'r casgliad na wnaeth y Cyngor benodi archwilydd mewnol mewn gwirionedd a bod yr adroddiadau archwilio mewnol yn rhai ffug. Bwriedir i'r materion a adroddir yn natganiad blynyddol 2017-18 gefnogi esboniadau'r cyn Glerc o pam nad oedd dogfennau ar gael i'w harchwilio.

88 Mewn ymateb i fy nghanfyddiadau archwilio rhagarweiniol, dywedodd y cyn Glerc ei bod yn cyd-fynd â fy nghasgliad.

89 Yn 2019, penododd y Cyngor Mr Davies i gynnal archwiliad mewnol. Gwnaeth Mr Davies gyfres o argymhellion i'r Cyngor i wella ei drefniadau rheoli ariannol ac i leihau'r perygl o ailadrodd y methiannau rhwng 2015-16 a 2019-20. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn sicrhau ei fod yn gwneud y newidiadau a argymhellwyd gan Mr Davies.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.